

CANOLFAN DŴR GWYN RHYNGWLADOL CAERDYDD - PECYN CWESTIYNAU
(GWEITHGAREDDAU GYDA HYFFORDDWYR - COEDLAN)

***EWCH I'R DUDALEN NESAF I GYTUNO I'R TELERAU AC AMODAU HYN**

Enw cyntaf (PRIFLYTHRENNAU)	
Cyfenw (PRIFLYTHRENNAU)	
Dyddiad geni (DD/MM/BBBB)	
Rhif ffôn	
Cod post cartref	
Cyfeiriad e-bost	
Oes gennych chi anabledd/cyflwr meddygol/alergedd y dylem wybod amdano? Os oes, rhowch fanylion.	

CANOLFAN DŴR GWYN RHYNGWLADOL CAERDYDD (caiff ei redeg gan Gyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW, cyfeirir atynt yn y ddogfen hon fel 'CIWW', 'ni' neu 'ein')

TELERAU, AMODAU A RHEOLAU, RHEOLIADAU AC YMDDYGIAD CIWW (GWEITHGAREDDAU GYDA HYFFORDDWYR)

Pwysig
Mae rhai risgiau ynghlwm â CoedLan. Dylech fod yn ymwybodol a derbyn y risgiau hyn, a bod yn gyfrifol am eich gweithredoedd eich hun. Yn ogystal â derbyn y Telerau ac Amodau a Rheolau, y Rheoliadau a'r Ymddygiad (y 'Telerau' yn y ddogfen hon), rhaid i chi hefyd ddarparu gwybodaeth ychwanegol cyn i chi gymryd rhan mewn gweithgareddau dan gyfarwyddyd yn Coedlan **CIWW**, ar ffurf ymatebion i gwestiynau yn y 'Pecyn Cwestiynau'. Rhaid i chi ddilyn pob hysbysiad, cyfarwyddyd a rhybudd gaiff ei gyhoeddi ar y safle neu gan un o gynrychiolwyr CoedLan. Os nad ydych yn siŵr os gallwch gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y Telerau hyn, y Pecyn Cwestiynau neu'r Ffurflen Archebu (lle bo'n berthnasol), gofynnwch i aelod o staff cyn i chi fynd i gytundeb gyda Ni. **Gallwch gysylltu ag Amgueddfa Cymru ar llogi@amgueddfacymru.ac.uk neu 029 2057 3428**

1. **Diogelu Data / Preifatrwydd**

1.1 Drwy gytuno â'r telerau ac amodau hyn, rydych yn cytuno y caiff Canolfan Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd brosesu eich data personol at ddibenion cymryd rhan yn ein gweithgareddau. Gallwch chi dynnu'r cytundeb hwn yn ôl unrhyw adeg drwy gysylltu â ni ar info@ciww.com

1.2 Gallai CIWW brosesu eich data er mwyn gwarchod eich buddiannau allweddol mewn argyfwng neu er mwyn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau lechyd a Diogelwch cyfreithiol.

1.3 Caiff eich data personol ei brosesu yn unol â GDPR a Deddf Diogelu Data 2018. Am fwy o wybodaeth ar sut ydyn ni'n brosesu eich data personol, edrychwch ar bolisi preifatrwydd CIWW yma: https://www.dgrhc.com/uploads/TCs/Polisi_Preifatrwydd.pdf. Gallwch hefyd weld hysbysiad preifatrwydd llawn Cyngor Caerdydd yma: <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Hafan/Ymwadiad/Pages/default.aspx>

1.4 Efallai y byddwn yn defnyddio CCTV i fonitro ein heiddo at ddibenion diogelwch ac i adolygu unrhyw ddamweiniau allai ddigwydd ar y safle.
2. **Archebu a thalu**

2.1 Byddwn yn defnyddio CoedLan (ac unrhyw leoliadau oddi ar y safle a ddefnyddir wrth gyflwyno'r gweithgareddau) ac yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau CoedLan yn unol â'r Telerau hyn. Lle bo'n briodol, bydd Ffurflen Archebu wedi'i chwblhau a'i llofnodi (lle na chaiff taliad ei dderbyn ymlaen llaw) ynghyd â'r Telerau hyn a'ch ymatebion i'r Pecyn Cwestiynau yn cyfrif fel cytundeb rhyngoch Chi 'y Cwsmer', neu'r 'Cyfrannwr') neu'r person sy'n gwneud yr archeb ar eich rhan, a Ni.

2.2 Os ydych yn archebu gweithgaredd ar ran grŵp, bydd 'chi' ac 'eich' yn cynnwys pob aelod o'r grŵp hwnnw. Ar ben hynny, rydych chi fel yr unigolyn sy'n archebu yn cytuno i sicrhau bod pob aelod o'r grŵp yn darllen ac yn cytuno i gydymffurfio â'r Telerau.

2.3 Rhaid i ni dderbyn taliad llawn neu Ffurflen Archebu (lle bo'n berthnasol) cyn i chi fynychu'r gweithgaredd dan sylw.

2.4 Unwaith mae eich archeb wedi ei wneud ac/neu wedi ei dderbyn gan Amgueddfa Cymru, rhaid derbyn taliad llawn cyn y gellir cadarnhau eich archeb.

2.5 Cyn defnyddio CoedLan, rhaid i bob cyfrannwr ateb y Pecyn Cwestiynau. Wedi i chi ddarparu eich gwybodaeth, fel cwsmer CoedLan, eich cyfrifoldeb chi yw rhoi gwybod i Amgueddfa Cymru os yw eich iechyd meddygol chi neu un o'ch grŵp yn newid rhwng y dyddiad archebu a dyddiad y gweithgaredd.
3. **Os byddwch chi yn canslo**

3.1 Ni ellir rhoi ad-daliad na symud yr archeb wedi i'r archeb gael ei gwneud. Os ydych chi eisiau canslo cysylltwch ag Amgueddfa Cymru ar llogi@amgueddfacymru.ac.uk neu 029 2057 3422.
4. **Os byddwn ni yn canslo**

4.1 Byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gweithgareddau CoedLan yn rhedeg yn ôl yr amserlen. Fodd bynnag, rydym yn cadw'r hawl i ganslo neu ail-drefnu digwyddiadau ar unrhyw adeg heb rybudd, oherwydd amodau anffafriol, rhagolygon ac amodau tywydd, neu unrhyw ffactorau eraill tu hwnt i'n rheolaeth, neu os ydym yn teimlo bod risgiau na allwn eu rheoli.

4.2 Os bydd rhaid i CoedLan gau, yna yn unol â'r cymal hwn gallwn ni, ar ein disgrisiwn ni yn unig, gynnig sesiwn arall neu ran o sesiwn heb dâl ychwanegol, neu gynnig ad-daliad rhesymol i chi.

4.3 Os ydych chi yn archebu ar ran sefydliad ac yn talu gydag anfoneb, gall Amgueddfa Cymru ar ei disgrisiwn ei hun ganslo unrhyw archeb sydd heb ei thalu yn llawn 3 wythnos cyn dyddiad cychwyn y gweithgaredd. Os caiff y gweithgaredd ei archebu lai na 3 wythnos ymlaen llaw, rhaid gwneud taliad llawn wrth archebu.

4.4 Os ydych wedi cychwyn eich gweithgaredd yn CoedLan pan gaiff ei ganslo neu ei gau yn unol â Chymal 4.2, byddwn yn cymryd yr amser a dreuliodd yn barod gennych yn CoedLan i ystyriaeth wrth benderfynu beth yw'r ffordd orau i'ch digolledu chi.
5. **Atebolrwydd**

5.1 Ni fyddwn yn cyfyngu ein hatebolrwydd i chi am unrhyw anaf personol (gan gynnwys marwolaeth), colled neu ddifrod i'ch eiddo y gallech eu dioddef o ganlyniad i'n methiannau ni.

5.2 Byddwn yn eich digolledu am unrhyw anaf personol (gan gynnwys marwolaeth), colled neu ddifrod i'ch eiddo, y gallech eu dioddef os ydyn ni yn methu â chyflawni dyletswyddau a osodir arnom yn ôl y gyfraith oni bai bod yr anaf, y golled neu'r difrod yn deillio o (i) eich bai chi; (ii) trydydd parti sydd ddim yn gysylltiedig â darpariaeth ein gwasanaethau ni o dan y cytundeb hwn; neu (iii) digwyddiadau na allwn ni na'n cyflenwyr fod wedi'u rhagweld neu eu hatal hyd yn oed o gymryd pob gofal rhesymol. Yn achos (i) os y byddwn yn gofyn, rydych yn cytuno i'n digolledu am unrhyw golled neu ddifrod yn seiliedig ar eich gweithred neu eich diffyg gweithredu chi.
6. **Cyfarpar, Cyfarwyddyd a Goruchwyllo**

6.1 Mae'r hyfforddiant a'r cyfarwyddyd y byddwch yn ei dderbyn yn benodol i CoedLan. Ni allwn warantu fod y sgiliau y byddwch yn eu dysgu yn CoedLan yn ddefnyddiol ar gyfer unrhyw weithgaredd arall sydd â'i risgiau unigryw ei hun.

6.2 Wrth archebu a chymryd rhan yn CoedLan rydych yn cytuno i ddilyn cyfarwyddiadau a gorchmynion unrhyw hyfforddwyr CIWW.
7. **Cytuno â'r telerau hyn ar ran person arall**

7.1 Rhaid i bawb o dan 18 oed gael rhiant neu warcheidwad cyfreithiol priodol i gytuno i'r Telerau hyn ac ateb y Pecyn Cwestiynau cyn iddynt gael cymryd rhan mewn weithgaredd CoedLan.

7.2 Rhaid i riant / oedolyn cyfrifol / gwarcheidwad cyfreithiol / neu ofalwyr gytuno i'r Telerau hyn ar ran unrhyw oedolyn sy'n methu gwneud y penderfyniad drosto'i hun neu yn methu deall y risgiau sydd ynghlwm ag unrhyw weithgaredd, a rhaid iddynt hefyd ateb y Pecyn Cwestiynau cyn cael cymryd rhan mewn weithgaredd CoedLan.

TUDALEN 2 O 2

8. Cadw at y rheolau
- 8.1

Rhaid i chi gydymffurfio yn llwyr â Rheolau, Rheoliadau ac Ymddygiad CIWW a nodir isod a'r holl reoliadau a chyfarwyddiadau diogelwch eraill a roddir gennym ni, ein staff a/neu ein hyfforddwyr.
- 8.2

Rhaid i chi beidio â gwneud unrhyw beth a allai achosi colled neu ddifrod i'n heiddo neu adnoddau, neu i unrhyw gyfranwyr eraill, neu achosi niwsans, aflonyddwch, anghyfleustra neu anaf i unrhyw berson arall ar y safle.
- 8.3

Rydym yn cadw'r hawl i stopio unrhyw berson sy'n torri'r telerau ac amodau hyn rhag defnyddio'r adnoddau, ac i ofyn iddynt adael ar unwaith. Ni fyddwn yn cynnig ad-daliad yn yr achos hwn, ac ni fyddwn yn derbyn atebolrwydd dros unrhyw gostau, hawliadau neu golledion a geir oherwydd sefyllfa o'r fath.
9. Cyffredinol
- 9.1

Ni chaniateir ysmegu na chyffuriau sydd ddim ar bresgripsiwn yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, gan gynnwys y maes parcio. Bydd unrhyw un sydd â chyffuriau o'r fath yn eu meddiant, neu sydd dan eu dylanwad, yn cael gwrthod mynediad.
- 9.2

Ni chaiff unrhyw un y credir eu bod o dan ddylanwad alcohol a/neu gyffuriau (yn ôl disgresiwn staff CoedLan yn unig) ddefnyddio adnoddau CoedLan na chymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau. Ni roddir unrhyw ad-daliad.
- 9.3

At ddibenion Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999, ni fydd gan berson nad yw'n barti i'r cytundeb hwn hawl i orfodi unrhyw rai o delerau'r cytundeb hwn.
- 9.4

Mae'r cytundeb hwn yn cael ei lywodraethu a'i ddehongli gan gyfraith Cymru a Lloegr ac mae'n rhaid i bob parti gydymffurfio ag awdurdodaeth unigryw llysoedd Cymru a Lloegr.
- 9.5

Rhaid rhoi gwybod i ni am eiddo coll o fewn 6 wythnos, gan y bydd unrhyw eitemau a ganfuwyd yn cael eu gwaredu ar ôl y cyfnod hwn.

RHEOLAU, RHEOLIADAU AC YMDDYGIAD CIWW

Cyffredinol

- 1.Allwn ni ddim eich cyngori a ddylech gymryd rhan ai peidio mewn gweithgaredd.
- 2.Dylech gymryd gofal, yn enwedig os ydych wedi cael triniaeth neu salwch yn ddiweddar, os oes gennych gyfiwr ar y galon, y gwddf, cefn neu'r esgyrn, pwysedd gwaed uchel, anwrysm neu unrhyw gyflyrau tebyg. Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch eich gallu i gymryd rhan, dylech gysylltu â'ch meddyg neu ddoctor arall.
- 3.Nid ydym yn argymhell i chi gymryd rhan yng nghwrs rhaffau uchel CoedLan os ydych yn feichiog. Os ydych yn cymryd rhan, byddwch yn gwneud hynny ar eich perwyl eich hun. Gweler gwybodaeth benodol am y gweithgaredd am gyfyngiadau pellach.
- 4.**Efallai y bydd cyfyngiadau penodol ar weithgareddau unigol**, gweler isod.
- 5.Rhaid i chi ddilyn unrhyw rybuddion neu gyfarwyddiadau diogelwch sydd i'w gweld ar y safle neu sy'n cael eu rhoi i chi gan aelod o staff CoedLan.
- 6.Mae Staff CoedLan yn cadw'r hawl i ofyn i unrhyw un sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd i adael y safle, heb ad-daliad.
- 7.Rhaid i bawb gwblhau'r ffurflenni perthnasol cyn cymryd rhan yn CoedLan.

CoedLan

1. Rhaid clymu gwallt yn ôl, a rhaid tynnu unrhyw eitemau rhydd neu eu plygu mewn i'ch dillad.
2. Rhaid tynnu holl emwaith a gwagio pocedi (rhaid rhoi tâp dros unrhyw fodrwy na ellir ei thynnu i ffwrdd).
3. DIM OND yr hyfforddwyr gaiff addasu cyfaroar diogelwch ar ôl ei ffitio.
4. Dim mwy nag UN person i fod ar bob elfen, a DAU berson ar bob platfform ar unrhyw adeg.
5. Rhaid i'r Wifren Wib a'r platfformau glanio fod yn wag cyn i chi adael y platfform cychwyn.
6. Daliwch eich gafael ar laniards wrth ddefnyddio's wifren wib.
7. Dim ond mewn un cyfeiriad y cewch symud ar hyd y cwrs.
8. Y pwysau trymaf a ganiateir yw 18 stôn (115kg).
9. Taldra lleiaf yw 130cm ond caiff plant 110cm+ gymryd rhan os ydynt yng nghwmni oedolyn neu rywun hŷn.
10. Rhaid i bob plentyn 6 oed neu iau fod gyda oedolyn ar y sesiwn Llwybr Awyr.
11. Gall 1 oedolyn (18+ oed) oruchwyllo 2 blentyn ar y mwyaf. Gall 1 plentyn 12+ oed oruchwyllo 1 plentyn ar y mwyaf.

Drwy gytuno â'r telerau hyn, rydych yn cytuno â'r pwyntiau ym Mholisi Preifatrwydd CIWW sydd i'w weld ar: https://www.dgrhc.com/uploads/TCs/Polisi_Preifatrwydd.pdf

Rwyf dros 18 oed ac rwyf yn cadarnhau fod yr holl wybodaeth a roddir yma yn gywir. Rwyf yn deall ac yn cytuno â'r Telerau uchod.

Enw (PRIFLYTHRENNAU)	Llofnod	
Dyddiad (DD/MM/BBBB)		

Rwyf i, y rhiant, oedolyn cyfrifol, gwarcheidwad cyfreithiol neu ofalwr (enw llawn.....) yn deall ac yn cytuno â'r Telerau uchod ar eu rhan.

Enw (PRIFLYTHRENNAU)	Llofnod	
Dyddiad (DD/MM/BBBB)		